

Cwestiynau Cyffredin – Rhieni a disgyblion Bl. 6

Beth yw'r wisg ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7?

Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn gwisgo crys coler wen gyda thei clip yr ysgol a siwmpwr gwddf V borffor gyda logo'r ysgol arni. Mae ein holl ddisgyblion yn gwisgo sgert neu drowsus du gydag esgidiau du. Bydd angen côt lliw tywyll ar gyfer y gaeaf hefyd. Yn ogystal â hyn, bydd angen dillad Addysg Gorfforol yr ysgol ac esgidiau chwaraeon ar bob disgybl. Ni ellir prynu ein wisg ysgol yn uniongyrchol gennym ni ond mae'r wisg ar gael gan Brodwaith yn Llangefni (01248 750333), Orchid School Shop ym Mangor (01248 354777) ac All Sewn Up ym Mangor (07402 919563). Rydym yn argymhell eich bod yn labelu pob dilledyn yn glir gydag enw'r disgybl arno. Bydd angen wisg ysgol er mwyn mynychu'r ysgol ym mis Medi 2020, er na fydd y disgyblion o bosib yn dod i'r ysgol bob diwrnod o'r wythnos oherwydd cyfyngiadau pellhau cymdeithasol COVID-19. Byddwn yn rhannu amserlen y dychwelyd graddol gyda rhieni a disgyblion cyn gynted â phosib.

Pa offer fydd angen i fy mhlentyn ddod gyda nhw i'r ysgol?

Gofynnir i bob disgybl ddod â'u câs pensiliau eu hunain gan gynnwys ysgrifbinnau, pensiliau, pren mesur, rwber, onglydd a set fechan o bensiliau lliw. Bydd angen cyfrifiannell hefyd. Bydd disgyblion yn dod â'u dillad Addysg Gorfforol ar y diwrnod cywir yn ôl yr hyn sydd ar eu hamserlen – ni fydd eu hangen ar eu diwrnod cyntaf. Dylid cario popeth yn eu bag ysgol. Rydym yn annog disgyblion i ddod ag offer angenrheidiol yn unig gan y byddant yn cario eu bagiau drwy'r dydd. Nid ydym yn darparu loceri. O ganlyniad i reoliadau COVID-19, gofynnir hefyd i ddisgyblion ddod â'u papur eu hunain ac unrhyw offer arall sydd ei angen arnynt ar hyn o bryd. Ni ellir rhannu offer am resymau diogelwch.

Pryd mae'r diwrnod ysgol yn dechrau ac yn gorffen?

Fel arfer, disgwylir i'r disgyblion fod ar y safle erbyn 08:45. Mae'r cyfnod cofrestru'n dechrau am 08:50. Ceir 6 gwrs 50 munud o hyd yn ystod y dydd, gydag egwyl o 15 munud rhwng 10:50 a 11:05, a chinio rhwng 12:40 a 13:35. Mae'r diwrnod ysgol yn gorffen am 15:20.

Serch hynny, mae'n debygol iawn y byddwn yn dilyn amserlen dychwelyd graddol ym mis Medi – bydd hon ychydig yn wahanol a byddwn yn ei rhannu â chi cyn gynted â phosib.

Sut dylai fy mhlentyn dalu am ginio ysgol?

Rydym yn defnyddio system fiometrigrig *School Gateway* ar gyfer cinio ysgol. Gall rhieni dalu ar-lein ac mae'r disgyblion yn defnyddio system ôl bys i dalu am eu pryd bwyd. Gellir gosod uchafswm dyddiol. Bydd gofyn i chi gwblhau ffurflen i roi caniatâd i ni ddefnyddio ôl bys eich plentyn a bydd yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys i chi ar y ffurflen honno.

Ym mhle ddylai fy mhlentyn ddal y bws ysgol a sut gallaf gael tocyn ar gyfer y bws?

Mae disgyblion sy'n byw'n bellach na 3 milltir o'r ysgol ac o fewn dalgylch yr ysgol yn gymwys i dderbyn tocyn bws. Gall disgyblion sy'n byw o fewn 3 milltir ac sydd angen defnyddio bws ysgol hefyd wneud cais am docyn ond bydd cost am wneud hynny. Dylid cyfeirio pob cwestiwn am gludiant ysgol i'r Cyngor Sir gan mai nhw sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau cludiant (01248 752458).

Ym mha ddsbarth fydd fy mhlentyn i?

Ym mis Medi bydd gennym 9 dosbarth cofrestru: 7Y, 7M, 7D, 7R, 7E, 7C, 7H, 7A a 7F. Bydd tua 24 disgybl ym mhob dosbarth. Bydd disgyblion yn cael eu rhoi mewn dosbarth cofrestru gydag o leiaf un neu ddau o'u ffrindiau lle bo hynny'n bosib, ar sail yr wybodaeth a geir gan eu hysgol gynradd. Bydd disgyblion yn mynychu'r rhan fwyaf o'r Meysydd Dysgu yn eu grwpiau cofrestru, ond byddant yn cael eu gosod mewn grwpiau gwahanol ar gyfer Mathemateg a Rhifedd. Dysgir pob grŵp yn ddwyieithog, gyda 7 Henllys yn gweithio'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg a'r 8 grŵp arall yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Polisi'r Sir yn datgan bod disgyblion sy'n symud o ysgolion cynradd ac yn dilyn Cymraeg iaith gyntaf yn gorfod parhau i wneud hynny wrth iddynt symud i addysg Uwchradd.

Ydych chi'n gosod disgyblion mewn setiau ym Blwyddyn 7?

Rydym yn eu gosod mewn setiau ar gyfer gwersi Mathemateg a Rhifedd yn unig ym Blwyddyn 7. Mae'r setiau hyn yn cael eu creu drwy ddefnyddio data a gwybodaeth a gawn gan yr ysgolion cynradd. Mae'r holl Feysydd Dysgu eraill yn cael eu dysgu mewn grwpiau galluoedd cymysg.

Pa bynciau mae disgyblion Blwyddyn 7 yn eu hastudio?

Mae cwricwlwm Blwyddyn 7 yn cynnwys 6 Maes Dysgu, sef Ieithoedd, Rhifedd a Chyfathrebu (gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a Ffrangeg); Gwyddoniaeth a Thechnoleg (gan gynnwys Cyfrifiadureg); Mathemateg a Rhifedd; Dyniaethau (Hanes, Daearyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol); Celfyddydau Mynegiannol (Celf, Cerddoriaeth a Drama) ac Iechyd a Lles (gan gynnwys Addysg Gorfforol). Ym mis Medi, oherwydd ein hamserlen dychwelyd graddol, byddwn yn addasu rhywfaint ar ein Cwricwlwm ar gyfer Blwyddyn 7 er mwyn adlewyrchu'r angen i ddisgyblion integreiddio'n llwyddiannus i Ysgol David Hughes, o bosib heb unrhyw ymweliadau â'r ysgol o flaen llaw. Bydd Iechyd a Lles yn cael sylw blaenllaw yn ein cwricwlwm yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth am y newidiadau hyn gyda chi cyn mis Medi.

Sut byddaf yn gwybod os oes gan fy mhlentyn waith cartref?

Rydym yn defnyddio gwasanaeth ar-lein o'r enw *Show My Homework* gan *Team Satchel* i osod ac i atgoffa disgyblion am dasgau gwaith cartref ac er mwyn rhannu gwybodaeth â nhw. Byddwch chi a'ch plentyn yn derbyn cyfrinair a PIN er mwyn defnyddio'r gwasanaeth hwn a gallwch lawrlwytho app i'ch ffôn symudol, eich tabled neu eich dyfais bersonol. Yn ogystal â hyn, mae ein disgyblion yn cael cyfeiriad e-bost a manylion mewngofnodi i HWB Cymru a fydd yn rhoi mynediad iddynt at amrywiaeth eang o adnoddau ar-lein, gan gynnwys *Google Classroom*, lle gosodir nifer o dasgau 'gweithio o adref' / gwaith cartref a rhoddir adborth iddynt ar eu gwaith gan ein haelodau staff. Rhoddir mwy o wybodaeth ar sut i ddefnyddio'r ddau blatfform hyn ar ein prif wefan.

A fydd teithiau'n cael eu trefnu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7?

Fel arfer, bydd. Ond nid yw'n ymddangos fel petai 2020-2021 yn mynd i fod yn 'flwyddyn normal'. Rydym yn trefnu taith flynyddol i Glan-llyn i Flwyddyn 7 ym mis Hydref er mwyn helpu'r disgyblion i ddod i adnabod ei gilydd a'n haelodau staff. Yn anffodus, mae'n annhebygol iawn y bydd y daith yn digwydd mis Hydref eleni. Trefnir teithiau gan y Meysydd Dysgu hefyd er mwyn cryfhau dealltwriaeth o'r pynciau a chynnig profiadau perthnasol sy'n cyfoethogi'r gwaith dysgu. Yn ogystal â hyn, ceir taith adeg y Nadolig fel arfer a thaith ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Pwy fydd yn cefnogi fy mhlentyn ym Mlwyddyn 7?

Gall dechrau mewn ysgol newydd fod yn brofiad pryderus i rai disgyblion. Bydd poeni am fynd ar goll, pynciau anodd neu hyd yn oed fwlio'n gallu achosi problemau i ddisgyblion. Tiwtor Blwyddyn eich plentyn fydd eu person cyswllt cyntaf am unrhyw beth sy'n eu poeni, gan y byddant yn gweld eu tiwtor blwyddyn bob bore yn ystod y cyfnod cofrestru. Gall disgyblion hefyd droi at eu hathrawon pynciol am gymorth gyda'u gwaith ysgol neu unrhyw bryderon am waith cartref. Mae tîm bugeiliol yr ysgol sy'n cynnwys Penaethiaid Blwyddyn ac aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli ar gael drwy'r dydd yn y 'Porth' i gynorthwyo gydag unrhyw broblemau neu bryderon arwyddocaol. I ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae'r 'Gorad' yn rhan arall o'r ysgol y gallant fynd iddi am gymorth a chefnogaeth.